

Tywysog Tangnefedd

“Pe bait tithau, y dydd hwn, wedi adnabod ffordd tangnefedd – ond na, fe’i cuddiwyd rhag dy lygaid.” (adn. 42)

Beth am ddarllen Luc 19:28–48 ac yna myfyrio

Mae pawb yn dyheu am heddwch, ond mwya’r trueni, dydy pawb ddim yn dymuno’r pethau hynny sy’n arwain at heddwch. Roedd Jerwsalem yn amser ein Harglwydd yn dyheu am heddwch. Roedd hi mewn cynghrair anesmwyth â’r Rhufeiniaid paganaidd, ac yn meddwl y gallai brynu heddwch drwy gydymffurfio â’r diwylliant dieithr. Roedd nifer o Iddewon, fodd bynnag, yn credu’n gryf y gallen nhw greu heddwch drwy wrthryfel arfog. Roedd eraill yn credu y gallen nhw gael heddwch drwy droi eu cefnau ar y dryswch moesol a’r amwysedd ysbrydol ac encilio i’r anialwch i ffurfio cymunedau mynachaid oedd yn sanctaidd ac ar wahân. Mae llawer o bobl heddiw yn byw bywydau anfoesol ac yna’n methu â deall pam na allan nhw gynnal heddwch parhaol o fewn perthynas. Maen nhw’n wftio gorchmynion Duw ac yna’n rhyfeddu bod cymdeithas mewn trafferthion. Maen nhw’n dymuno heddwch, ond ar eu telerau eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Ond mae tangnefedd go iawn yn mynd heibio iddynt.

Roedd dilynwyr ein Harglwydd i’w gweld yn ymhyfrydu mewn addewid o dangnefedd nefol yn cael ei gynnig i’r ddinas drwy gyfrwng y brenin heddychol yn marchogaeth yn symbolaidd i mewn i’w brifddinas, nid ar farch rhyfel ond ar asyn. Ond mae ei wrthwynebwy yn protestio: “Ni fynwn hwn yn frenin arnom” (cymharer adnod 14). Roedden nhw’n dymuno cael heddwch, ond nid Tywysog Tangnefedd. Felly, tra oedd cyfeillion yn llawenhau a beirniaid yn gweld bai, roedd Iesu’n wlo bod cymaint yn mynd i golli’r tangnefedd roedd ef yn ei gynnig.

Gallwn ddychmygu bod yr Arglwydd yn parhau i wlo o hyd wrth weld unigolion, teuluoedd a chenhedloedd cyfain yn ymdrechu i ddod o hyd i heddwch, ond heb roi ystyriaeth o gwbl i Dywysog Tangnefedd. Os nad Duw ydy ffynhonnell ein tangnefedd, yna gall amgylchiadau neu drychineb ei fwrw i lawr yn hawdd iawn.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 122: 1–9; Eseia 9: 6–7; Rhuf. 1: 1–7; I Ioan 5: 1–5

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa addewidion mae Eseia’n eu gwneud yn ei broffwydoliaeth?
2. Sut mae Paul yn cyfarch y saint yn Rhufain?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, meistr amser a thymor a chynnwrf, cynorthwya’r byd i weld nad oes gwir heddwch i’w gael yn y bydysawd yma heb blygu glin i Dywysog Tangnefedd. Er mwyn d’enw annwyl dy hun. Amen.